Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Polisi Cwynion Myfyrwyr

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 3
2. Egwyddorion Arweiniol ..... 3
3. Cwmpas ..... 3
4. Y berthynas a'r rhyngwyneb â pholisïau a gweithdrefnau eraill ..... 4
5. Cyfrifoldebau ..... 5
6. Diffiniadau ..... 5
7. Addasiadau Rhesymol ..... 6
8. Cymorth ..... 6
9. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Cyfrinachedd Myfyrwyr ..... 7
10. Gweithdrefn Datrysiad Cynnar ..... 7
11. Cwynion Ffurfiol ..... 8
12. Cwynion Dienw ..... 9
13. Cwynion Grŵp ..... 9
14. Cyflwyno Cwyn Ffurfiol (Cam 1) ..... 10
15. Gwerthusiad cychwynnol, Ymchwiliad ac Argymhellion ..... 10
16. Panel Cwynion (Panel Ffurfiol) ..... 12
17. Canlyniadau ..... 12
18. Adolygu Canlyniad Cwynion (Cam 2) ..... 13
19. Cwblhau Gweithdrefnau ac Adolygiad Annibynnol ..... 14
20. Paramedrau cyfrinachedd ..... 14
21. Llinellau amser safonol ..... 15
22. Monitro ..... 15
23. Goblygiadau Adnoddau ..... 15
24. Asesu Effaith ..... 16
25. Awdur y polisi: ..... 16
26. Rheoli fersiynau dogfennau ..... 16

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae’r polisi hwn yn cynnwys gweithdrefnau’r Brifysgol ynghylch cwynion a phryderon sy’n codi yn ystod astudiaeth.

1.2. Mae’r polisi’n dilyn egwyddorion ac arfer da nifer o ddogfennau’r sector:

- SDA/OIA: The Good Practice Framework: complaints and complaints (2016)
- UK Quality Code for Higher Education: Advice and Guidance: Concerns, Complaints and Appeals (2018)

## 2. Egwyddorion Arweiniol

2.1. Nod y polisi yw sicrhau bod gweithdrefnau cwynion yn cael eu cynnal mewn modd teg a thryloyw, gan sicrhau bod unrhyw achosion yn cael eu trin yn amserol gan staff annibynnol priodol, gyda chanlyniadau sy’n gymesur â’r achos.

2.2. Fel arfer bydd camau unioni'n ceisio dychwelyd y myfyriwr i'r sefyllfa y byddai ef/hi wedi bod ynddi fel arfer, pe na bai'r methiant a nodwyd yn y gŵyn wedi digwydd.

2.3. Safon y prawf i'w ddefnyddio yw “yn ôl pwysau tebygolrwydd”.

2.4. Lluniwyd y polisi hwn i alluogi myfyrwyr i godi pryderon teg heb ofni cael eu rhoi dan anfantais neu fod yn destun gwrthgyhuddiad, ac i alluogi’r Brifysgol, yn ei thro, i allu ymchwilio’r pryderon hyn yn llawn.

2.5. Gall y Brifysgol roi ystyriaeth ffurfiol i gwynion a gyflwynir trwy Undeb y Myfyrwyr neu, yn achos cwyn gan grŵp o fyfyrwyr, gan gynrychiolwyr o’r grŵp. Fodd bynnag, ni all y Brifysgol ymateb i gwynion gan drydydd parti na chwynion dienw dan y weithdrefn hon, na rhoi ystyriaeth ffurfiol iddynt.

2.6. Gall y Brifysgol derfynu'r ystyriaeth o gŵyn os yw o'r farn ei bod yn ddisylwedd, yn flinderus neu’n faleisus. Os canfyddir bod cwyn wedi’i gwneud gyda bwriad disylwedd, blinderus neu faleisus, gall hyn ynddo’i hun brofi i fod yn rheswm dros gamau disgyblu yn erbyn yr achwynydd dan Bolisi Camymddwyn Anacademaidd y Brifysgol.

## 3. Cwmpas

3.1. Mae’r polisi hwn yn berthnasol i’r holl fyfyrwyr, ar bob lefel astudio, sydd wedi cofrestru’n uniongyrchol (neu a fu wedi’u cofrestru yn ystod y 3 mis diwethaf) ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

3.2. Yn achos myfyrwyr a gofrestrwyd mewn sefydliadau partner cydweithredol neu yng Ngholegau Cyfansoddol y Brifysgol, dilynir gweithdrefnau’r sefydliad hwnnw yn y lle cyntaf. Mae gan fyfyrwyr nad ydynt yn fodlon â chanlyniad cwyn a godwyd gyda’r sefydliad partner yr hawl wedyn i gyflwyno cwyn ffurfiol i’r Brifysgol dan y polisi hwn.

3.3. Mae’r polisi hwn yn cynnwys cwynion ar leoliad neu gynllun cyfnewid lle mae’r gwasanaeth a ddarparwyd gan y darparwr hwnnw wedi effeithio ar y profiad dysgu.

3.4. Mae angen i gwynion sy’n ymwneud â gwasanaethau a ddarparwyd gan sefydliad arall gael eu cyfeirio at y sefydliad hwnnw. Er enghraifft, os ydych chi’n dymuno gwneud cwyn ynglŷn ag Undeb y Myfyrwyr, mae angen i chi fynegi’r gŵyn trwy eu gweithdrefnau nhw.

3.5. Cyfeirir cwynion am staff at y weithdrefn AD briodol, a bydd gan y weithdrefn hon linellau amser ar wahân i’r rhai a amlinellir yn y polisi hwn.

3.6. Cyfeirir cwynion am fyfyrwyr eraill at y polisi priodol (e.e. Camymddwyn Anacademaidd), a fydd â llinellau amser ar wahân i'r rhai a amlinellir yn y polisi hwn.

3.7. Nid yw'r polisi hwn yn cynnwys cwynion a wneir am geisiadau mynediad Rhyddid Gwybodaeth sy'n cael eu trin ar wahân.

3.8. Nid yw'r polisi hwn yn cynnwys cwynion allanol am y Brifysgol sy'n cael eu trin ar wahân.

3.9. Ni fydd y Brifysgol yn ystyried unrhyw gŵyn lle mae'r prif faterion y cwynir amdanynt wedi digwydd dros 3 blynedd cyn i'r gŵyn ddod i law.

3.10. Fel arfer nid ymdrinnir â'r canlynol o dan y broses gwynion:

3.10.1. Pryder am benderfyniad a wnaed ynghylch dilyniant, asesu a dyfarniadau academaidd.

3.10.2. Anfodlonrwydd ynghylch canlyniad proses camymddwyn academaidd neu broses ddisgyblu.

3.10.3. Pryder ynghylch penderfyniad a wnaed dan bolisïau penodol eraill, e.e. cymorth i astudio, addasrwydd i ymarfer.

3.11. Dylai cwynion am daliadau gan Gyllid Myfyrwyr gael eu codi gyda'r sefydliad hwnnw gan ddefnyddio eu gweithdrefn gwyno nhw.

## 4. Y berthynas a'r rhyngwyneb â pholisïau a gweithdrefnau eraill

4.1. Mae nifer o bolisïau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r Polisi Cwynion Myfyrwyr, gan gynnwys:

- Polisi Camymddwyn Academaidd
- Gweithdrefn Urddas yn y Gweithle
- Polisi Addasrwydd i Ymarfer
- Polisi Cymorth i Astudio
- Polisi Amgylchiadau Lliniarol
- Polisi Camymddwyn Anacademaidd
- Polisi Perthnasoedd Proffesiynol
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol

4.2. Fel rhan o asesiad cychwynnol unrhyw achos, bydd y Brifysgol yn ystyried pa bolisi(au) yw'r rhai mwyaf priodol i'w defnyddio.

4.3. Bydd y Brifysgol yn ailasesu hyn fel y bo'n briodol a gall newid neu ychwanegu gweithdrefnau fel y bo'n briodol. Mae'n bosibl y gweithredir dau bolisi yn gyfochrog neu efallai y bydd un weithdrefn yn dilyn y llall lle bo achos yn cynnwys elfennau sy'n perthyn i fwy nag un polisi (e.e. cwyn yn cynnwys elfennau o gamymddwyn anacademaidd neu fwlio).

4.4. Os yw dau neu fwy o bolisïau neu weithdrefnau'n gymwys ar yr un pryd, fel arfer bydd un o'r polisïau'n brif bolisi yn nhermau proses.

4.5. Rhoddir gwybod i'r myfyrwyr pa bolisi, polisïau, a/neu weithdrefnau a ddefnyddir yn eu hachos nhw ac ym mha drefn.

## 5. Cyfrifoldebau

5.1. Cyfrifoldebau'r Brifysgol:

5.1.1. Mae cwynion yn cael eu goruchwylio gan y Cyngor.

5.1.2. Goruchwylir y fframwaith polisïau a gweithdrefnau ar ran y Senedd gan y Pro Is-Ganghellor â chyfrifoldeb am Brofiad Academaidd.

5.1.3. Mae Swyddogion Achosion yn cyflawni amrywiaeth o rolau mewn perthynas â chwyn academaidd, gan gynnwys cynnal asesiad cychwynnol, ymgymryd ag ymchwiliad, gwneud argymhelliad ynghylch a oes angen mynd ag achos ymlaen i Banel Ffurfiol, a gwneud argymhelliad ynghylch canlyniad. Mae'n bosibl y bydd mwy nag un Swyddog Achosion ar gyfer achos penodol, a bydd rôl benodol gan bob swyddog ynglŷn â'r achos.

5.1.4. Bydd Uwch Swyddog, nad yw'n ymwneud ag achos ar unrhyw gam blaenorol, yn cynnal yr adolygiad o gŵyn.

5.1.5. Mae Deoniaid Athrofeydd a Chyfarwyddwyr / Penaethiaid Unedau Proffesiynol yn gyfrifol am sicrhau y defnyddir y gweithdrefnau a amlinellir yn y polisi hwn yn briodol, yn enwedig mewn perthynas ag unrhyw achosion ar gam anffurfiol.

5.1.6. Mae Rheolwyr Rhaglen yn gyfrifol am ddelio â phryderon anffurfiol mewn modd priodol ac yn unol â'r polisi.

5.2. Cyfrifoldebau Myfyrwyr

5.2.1. Mae myfyrwyr yn gyfrifol am:

5.2.1.1. Gyflwyno'r gŵyn ar y ffurflen briodol.

5.2.1.2. Cyflwyno'r gŵyn i'r Swyddfa briodol yn y Brifysgol o fewn yr amser a bennir.

5.2.1.3. Darparu unrhyw dystiolaeth ategol yn ymwneud â'u cwyn.

5.2.1.4. Ymwybyddiaeth o reoliadau'r Brifysgol.

5.2.1.5. Darllen eu negeseuon e-bost Prifysgol yn rheolaidd a'r wybodaeth a ddarperir trwy borth y myfyrwyr.

## 6. Diffiniadau

6.1. O ran Cwynion defnyddir y diffiniadau canlynol:

6.1.1. **"Cwyn"** - mynegiant o anfodlonrwydd gan un myfyriwr neu fwy ynghylch gweithredu neu ddiffyg gweithredu, neu ynghylch safon gwasanaeth a ddarperir gan y Brifysgol neu ar ran y Brifysgol.

6.1.2. **"Myfyriwr"** - unrhyw un sydd wedi cofrestru i ddilyn Rhaglen Astudio neu fodwl/modylau a gynigir gan y Brifysgol ac unigolion sydd wedi bod yn fyfyrwyr o'r Brifysgol am hyd at 3 mis wedi iddynt adael y Brifysgol.

6.2. Pan fo cwyn gan grŵp wedi'i wneud naill ai'n unigol neu drwy gynrychiolydd cydnabyddedig, byddant yn ymgymryd â rôl y myfyriwr trwy gydol y polisi.

6.3. Caniateir i bob myfyriwr enwebu cynrychiolydd a enwir, e.e. i fynd yn gwmni iddo/iddi i unrhyw gyfarfodydd neu yng nghyswllt cyfathrebu am eu hachos. Caniateir cynrychiolaeth gyfreithiol mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.

## 7. Addasiadau Rhesymol

7.1. Os ydych wedi cofrestru anabledd neu anhawster dysgu gyda'r Brifysgol, yna gall fod o fudd i chi dderbyn cymorth ychwanegol i'ch helpu gyda'r broses. Os felly, cysylltwch â'r adran Gwasanaethau Myfyrwyr neu adran gyfatebol yn y Sefydliad Partner Cydweithredol lle rydych yn astudio, sydd yn ffynhonnell ddefnyddiol o gyngor ac a all helpu i ddarparu'r ddogfennaeth berthnasol mewn ffurf wahanol.

7.2. Os ydych yn disgwyl ei chael yn anodd cwblhau gwaith erbyn y dyddiadau terfyn a nodir yn y Polisi hwn, oherwydd anabledd neu anhawster dysgu cofrestredig, dylech roi gwybod am hyn i'r Brifysgol, yn ddelfrydol cyn i'r dyddiad terfyn perthnasol fynd heibio. Mae'n bosibl y rhoddir amser ychwanegol ar gyfer cyflwyniadau sy'n bodloni'r amodau hyn.

7.3. Os nad yw myfyrwyr eisoes wedi datgan anabledd yn ffurfiol i'r Brifysgol cyn cychwyn proses gwynion, fe'u cynghorir i wneud datganiad o'r fath cyn gynted â phosibl yn ystod y prosesau ffurfiol fel bod modd gwneud addasiadau rhesymol i ddarparu ar gyfer hyn.

7.4. Yr Adran Gwasanaethau Myfyrwyr neu adran gyfatebol yn y Sefydliadau Partner Cydweithredol fydd yn gwneud y penderfyniad ynghylch union natur unrhyw addasiadau rhesymol sydd eu hangen, mewn ymgynghoriad â'r myfyriwr gan sicrhau y cymerir cyngor allanol fel y bo'n briodol. Gellir gohirio'r broses gwynion tan i'r addasiadau rhesymol gael eu gwneud.

7.5. Gwneir addasiadau rhesymol fel y bo'n briodol mewn perthynas â'r broses gwynion a chaiff y canlyniad ei gyfleu i bob myfyriwr sydd ag anabledd datganedig neu broblemau iechyd eraill.

7.6. Bydd gan bob myfyriwr yr hawl i fynd â rhywun o'i ddewis yn gwmni i unrhyw gyfarfod sy'n gysylltiedig â'r broses gwynion ac mae gofyn iddo ef/hi roi gwybod yn ysgrifenedig i'r Brifysgol cyn unrhyw gyfarfod neu banel a yw'n bwriadu mynd â rhywun yn gwmni. Caniateir cynrychiolaeth gyfreithiol mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Mae angen gwneud cais o'r fath am gynrychiolaeth gyfreithiol yn ysgrifenedig i Swyddfa'r Pro Is-Ganghellor perthnasol. Fel arfer ni fydd y sawl a ddaw'n gwmni'n cyfrannu i'r trafodaethau.

## 8. Cymorth

8.1. Gall myfyrwyr fynd at eu Rheolwr Rhaglen neu swyddog priodol yn y Brifysgol i drafod yn anffurfiol unrhyw bryderon sydd ganddynt mewn perthynas â'u cwrs neu wasanaeth a ddarperir gan y Brifysgol.

8.2. Wedi i gŵyn gael ei chyflwyno'n ffurfiol, gellir gofyn am gyngor ac arweiniad gan Swyddog Ansawdd Academaidd.

8.3. Yn ogystal mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnig cymorth a chefnogaeth i fyfyrwyr i'w harwain trwy bolisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol, a datrys materion a phroblemau.

8.4. Gall myfyrwyr hefyd ofyn am gymorth gan yr adran Gwasanaethau Myfyrwyr trwy gydol y broses.

8.5. Ni fydd yr aelod o'r staff sy'n barnu yn yr achos yn darparu cymorth o ran cyngor ac arweiniad i'r myfyriwr trwy'r broses.

8.6. Gall aelodau staff yr Athrofeydd neu'r Gwasanaethau Proffesiynol ofyn am gyngor a chyfarwyddyd gan y Swyddfa Academaidd mewn perthynas â'r prosesau cwynion.

## 9. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Cyfrinachedd Myfyrwyr

9.1. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei holl weithgareddau. Yn benodol, dylid darllen y Polisi hwn ar y cyd â datganiadau a pholisïau'r Brifysgol mewn perthynas â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth a Chyfrinachedd Myfyrwyr. Ni fydd myfyrwyr sy'n cyflwyno cwyn yn cael eu rhoi dan anfantais o ganlyniad i wneud hynny a bydd preifatrwydd a chyfrinachedd y myfyriwr yn cael eu parchu ar bob cam o'r broses. Wrth gyflwyno cwyn, fodd bynnag, rhaid i fyfyrwyr dderbyn y bydd angen datgeliad cyfyngedig o'u cyflwyniad cyfan neu ran ohono fel bod modd parhau ag ymchwiliad i'w hachos.

9.2. Mae gan fyfyrwyr yr hawl i ddisgwyl y bydd pawb sy'n ymateb i, yn ymchwilio neu'n dyfarnu ar apêl yn gwneud hynny'n ddiduedd. Ni chaniateir i unrhyw unigolyn, gan gynnwys aseswyr, weithredu mewn unrhyw ffordd mewn achos y mae ganddo fudd perthnasol ynddo neu lle gallai gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosibl godi.

## 10. Gweithdrefn Datrysiad Cynnar

10.1. Gellir datrys y rhan fwyaf o gwynion yn syml ac yn gyflym mewn modd anffurfiol, ar lefel leol, trwy drafod y mater neu'r pryder gyda'r unigolyn perthnasol.

10.2. Ar gyfer materion yn ymwneud â modwl neu raglen astudio, y person perthnasol fel arfer fydd y Rheolwr Rhaglen neu'r Cyfarwyddwr Academaidd.

10.3. Yn achos materion yn ymwneud â gwasanaethau a ddarperir gan y Brifysgol, y person perthnasol fel arfer fydd rheolwr yr adran neu'r gwasanaeth dan sylw.

10.4. Mae'r Brifysgol yn annog myfyrwyr i fynegi materion sy'n peri pryder cyn gynted ag y byddant yn codi. Ceisia'r Brifysgol, yn ei thro, ddod o hyd i ddulliau effeithiol o unioni'r pryderon hynny cyn gynted ag y bo modd a chyda chyn lleied o darfu â phosibl.

10.5. Dylai myfyriwr neu grŵp o fyfyrwyr sy'n mynegi pryder penodol am ddarpariaeth Rhaglen Astudio, neu wasanaeth academaidd neu gymorth cysylltiedig, geisio datrys y mater trwy eu Cynrychiolwyr Myfyrwyr, yn cynnwys, lle bo hynny'n briodol, eu swyddogion Undeb Myfyrwyr a'u Tiwtoriaid Blwyddyn neu'u Tiwtoriaid Personol. Gellir defnyddio Pwyllgorau Staff Myfyrwyr i'r perwyl hwn yn ogystal. Bydd y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech i fynd i'r afael â'r pryder ar y cam hwn.

10.6. Ar y lefel anffurfiol, mae'r dulliau unioni y gellid eu cynnig yn cynnwys:

- 10.6.1. Ymddiheuriad;
- 10.6.2. Dull unioni y cytunwyd arno ar gyfer yr amgylchedd dysgu neu'r cwrs;
- 10.6.3. Datrys y pryder, e.e. mynediad i wasanaeth; gwneud newid i amserlen neu ystafell;
- 10.6.4. Cyfryngu a chymodi (gan Gyfarwyddwr Academaidd neu Bennaeth Uned Broffesiynol yn unig);
- 10.6.5. Dull unioni ariannol heb fod yn fwy na £500 (gan Gyfarwyddwr Academaidd neu Bennaeth Uned Broffesiynol yn unig)
- 10.6.6. Adfer difrod (gan Gyfarwyddwr Academaidd neu Bennaeth Uned Broffesiynol yn unig);
- 10.6.7. Cyfiawnder adferol (gan Gyfarwyddwr Academaidd neu Bennaeth Uned Broffesiynol yn unig).

10.7. Os na fydd modd datrys mater neu bryder trwy'r weithdrefn gwynion anffurfiol, gall y myfyriwr godi cwyn yn ffurfiol.

## 11. Cwynion Ffurfiol

11.1. Os nad yw cwyn Ffurfiol wedi'i chodi trwy'r broses Datrysiad Cynnar a byddai hynny wedi bod yn briodol, gellir cyfeirio'r gŵyn yn ôl i'r lefel honno.

11.2. Ymdrinnir â phob cwyn gan aelod annibynnol priodol o'r Brifysgol.

11.3. Dylid darllen cyfeiriadau yn y polisi hwn at gamau neu weithredoedd gan ddeiliaid swyddi penodol yn y Brifysgol fel pe baent yn cynnwys cyfeiriad at eu henwebeion. Yn ogystal, er mwyn osgoi oedi neu wrthdaro posibl rhwng cyfrifoldebau, caiff aelodau eraill o'r staff gyflawni tasgau a ddynodwyd i ddeiliaid swyddi penodol.

11.4. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cwynion, a amlinellir yn y polisi hwn, yn disgrifio prosesau mewnol y Brifysgol. Wrth geisio sicrhau dull a defnydd cyson, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i amrywio union fanylion y weithdrefn a ddefnyddir yn ôl amgylchiadau achos penodol, a bydd yn hysbysu'r myfyriwr pan fydd angen gwneud hynny.

11.5. Ble bynnag y bo modd, bydd y Brifysgol yn ceisio glynu wrth y terfynau amser a nodir yn y gweithdrefnau hyn, ond mewn achosion lle ceir amgylchiadau arbennig sy'n gofyn am amrywio terfynau amser a bennwyd, caiff y myfyriwr wybod am y rhesymau dros hyn.

11.6. Wrth ddefnyddio'r polisi hwn, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ohirio unrhyw ymchwiliad neu banel cwynion ac ailymgynnull yn ddiweddarach.

11.7. Disgwylir y bydd myfyrwyr, eu cynrychiolwyr a staff yn ymddwyn yn rhesymol ac yn deg tuag at ei gilydd ac y byddant yn trin y broses gwynion â pharch. Os bydd myfyrwyr/staff yn mynd yn groes i egwyddorion Urddas yn y Gweithle, gall y Brifysgol gymryd camau disgyblu.

11.8. Nid yw prosesau cwynion fel arfer yn cynnwys cyfarfodydd sy'n gofyn am bresenoldeb y myfyriwr. Pan wahoddir myfyriwr i gyfarfod, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i fwrw ymlaen â chyfarfod o'r fath yn absenoldeb y myfyriwr, ar yr amod bod y myfyriwr wedi cael gwybod yn iawn am ddyddiad ac amser y cyfarfod. Os yw'r myfyriwr yn penderfynu gadael unrhyw gyfarfod sy'n gysylltiedig â'r broses gwynion, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i barhau â chyfarfod o'r fath. Lle bo'n briodol, rhoddir cyfle i fyfyrwyr fod yn bresennol mewn cyfarfodydd yn electronig os nad yw'n bosibl iddynt fod yn bresennol eu hunain.

11.9. Os yw'r broses gwynion yn cynnwys cyfarfod â'r myfyriwr, gwahoddir y myfyriwr i gyfarfod o'r fath, fel arfer o leiaf ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod.

11.10. Pan fydd y myfyriwr wedi cyfleu, mewn ymateb i hysbysiad o gyfarfod, na all ddod i gyfarfod am reswm da, fel arfer bydd y Brifysgol yn aildrefnu dyddiad cyfarfod o'r fath.

11.11. Bydd gan y myfyriwr yr hawl i fynd â rhywun o'i ddewis yn gwmni i unrhyw gyfarfod sy'n gysylltiedig â'r broses gwynion ac mae gofyn iddo ef/hi roi gwybod yn ysgrifenedig i'r Brifysgol cyn unrhyw gyfarfod neu banel a yw'n bwriadu mynd â rhywun yn gwmni. Caniateir cynrychiolaeth gyfreithiol mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Mae angen gwneud cais o'r fath am gynrychiolaeth gyfreithiol yn ysgrifenedig i Swyddfa'r Pro Is-Ganghellor perthnasol. Fel arfer ni fydd y sawl a ddaw'n gwmni'n cyfrannu i'r trafodaethau.

11.12. Ni fydd unrhyw gyfarfodydd yn cael eu recordio ac nid yw'r Brifysgol yn caniatáu i unrhyw gyfarfodydd gael eu recordio'n gudd. Darperir nodiadau neu gofnodion ar gyfer pob cyfarfod a gynhelir.

11.13. Bydd myfyrwyr yn cael copi o'r polisi hwn a'r gweithdrefnau a byddant yn cael gwybod pwy yw'r Swyddog(ion) Achosion.

11.14. Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod yr holl gofnodion ysgrifenedig sy'n ymwneud â'r achos yn glir, yn gywir ac yn briodol ac y cânt eu storio'n unol â deddfwriaeth diogelu data berthnasol.

## 12. Cwynion Dienw

12.1. Fel arfer ni fydd cwynion dienw'n cael eu trin o dan y Polisi Cwynion Myfyrwyr oherwydd bod potensial y gallai hyn greu annhegwch o fewn y broses, yn enwedig pan wneir honiadau yn erbyn myfyriwr arall a/neu aelod o staff. Yn ogystal gallai cwynion dienw lesteirio'r ymchwiliad a chyfyngu ar y canlyniadau posibl.

12.2. Mewn amgylchiadau eithriadol ac am resymau y gellir eu cyfiawnhau sy'n ymwneud â chyfrinachedd, gall y Brifysgol ystyried cadw hunaniaeth yr achwynydd yn anhysbys.

12.3. Os yw myfyrwyr o'r farn fod ganddynt ddigon o gyfiawnhad i aros yn ddienw, dylent gyflwyno eu rhesymau yn ysgrifenedig i'r Swyddfa Academaidd i'w hystyried. Bydd y Swyddfa Academaidd yn rhoi gwybod iddynt am ganlyniad y cais i aros yn ddienw o fewn 7 diwrnod.

12.4. Bydd y Brifysgol yn trin unrhyw wybodaeth a thystiolaeth ategol a gyflwynwyd yn rhan o gŵyn mewn modd sensitif ac yn unol â pholisïau Diogelu Data'r Brifysgol.

12.5. Ni chaiff myfyrwyr eu trin mewn ffordd negyddol o ganlyniad i gyflwyno cwyn. Os bydd myfyrwyr yn amau eu bod yn cael eu trin yn negyddol o ganlyniad i gyflwyno cwyn, dylent gysylltu â'r Swyddfa Academaidd.

## 13. Cwynion Grŵp

13.1. Os yw'r un materion cwyn yn effeithio ar nifer o fyfyrwyr ar yr un ar yr un pryd, gellir cyflwyno cwyn grŵp.

13.2. Gellir mynd ati i wneud cwyn grŵp o dan yr amodau canlynol:

13.2.1. Rhai i bob aelod o'r grŵp gytuno'n ysgrifenedig eu bod yn enwebu un myfyriwr i weithredu fel llefarydd ar ran y grŵp gan ddefnyddio'r Ffurflen Cydsyniad Grŵp. Rhaid cyflwyno copi gyda'r gŵyn.

13.2.2. Mae llefarydd y grŵp yn cydsynio i gynrychioli safbwyntiau'r grŵp a gweithredu ar ran yr aelodau.

13.2.3. Rhaid i bob aelod o'r grŵp gadarnhau (a gallu dangos) eu bod wedi cael eu heffeithio gan yr un materion a amlinellir o fewn y gŵyn. Ceidw'r Brifysgol yr hawl i gau aelod allan o gŵyn grŵp os na ellir dangos hyn. Pan ddigwydd hyn, mae'n bosibl y cynghorir y myfyriwr i ddilyn cwyn unigol.

13.2.4. Mae pob aelod o'r grŵp yn cadarnhau eu bod yn deall ac yn cytuno y byddai'n ofynnol iddynt ddod i gytundeb ar y cyd ynghylch a ydynt yn derbyn canlyniad y gŵyn ai peidio gan gynnwys unrhyw ddull unioni ymarferol arfaethedig.

13.2.5. Mae pob aelod o'r grŵp yn cadarnhau eu bod yn cytuno â'r holl dystiolaeth a gyflwynir gan lefarydd y grŵp.

13.3. Pan gyflwynir cwyn grŵp, bydd y Brifysgol yn cysylltu â'r llefarydd am faterion sy'n ymwneud â'r gŵyn grŵp.

13.4. Os oes angen mynychu Panel Ffurfiol, ceidw'r Brifysgol yr hawl i gyfyngu faint all fynychu i nifer cyfyngedig o aelodau'r grŵp, gan gynnwys llefarydd y grŵp, yn ôl y gofyn.

## 14. Cyflwyno Cwyn Ffurfiol (Cam 1)

14.1. Dylid anfon y Gŵyn i Swyddfa'r Pro Is-Ganghellor perthnasol ar Ffurflen Gwynion y Brifysgol.

14.2. Yn achos cwyn grŵp, rhaid cyflwyno Ffurflen Cydsyniad Grŵp gyda Ffurflen Gwynion y Brifysgol.

14.3. Rhaid i gwynion ffurfiol ddod i law ddim mwy na mis wedi i'r weithdrefn anffurfiol ddod i ben (lle bo hynny'n briodol) ac fel arfer ddim mwy na 6 mis wedi i'r prif faterion y cwynir amdanynt ddigwydd.

14.4. Ni fernir bod hysbysiad syml o gŵyn a roddir yn ysgrifenedig gan fyfyriwr o fewn y terfyn amser uchod yn gyfystyr â chwyn ac ni chaiff ei dderbyn.

14.5. Ystyrir bod cwynion ffurfiol a ddaw i law ar ôl y terfynau amser hyn yn rhy hwyr ac ni chânt eu hystyried oni bai fod tystiolaeth annibynnol i ddangos bod rhesymau argyhoeddiadol pam na chodwyd y gŵyn ffurfiol mewn da bryd.

14.6. Ni fydd y Brifysgol yn ystyried unrhyw gŵyn lle mae'r prif faterion y cwynir amdanynt wedi digwydd dros 3 blynedd cyn i'r gŵyn ddod i law.

14.7. Os bernir bod cwyn yn rhy hwyr, bydd y Brifysgol, ar gais, yn cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau, gan nodi'r rheswm pam na chafodd y gŵyn ei hystyried a chan hysbysu'r achwynydd y gall fynd â'r gŵyn at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA) ar gyfer Addysg Uwch.

## 15. Gwerthusiad cychwynnol, Ymchwiliad ac Argymhellion

15.1. Ar ôl i gŵyn ddod i law, penodir Swyddog Achosion.

15.2. Cymerir gofal i sicrhau bod y Swyddog Achosion a benodir yn ddiduedd ac nad yw'n gysylltiedig â'r achos. Fel arfer bydd y Swyddog Achosion yn aelod o staff y Brifysgol, ond mewn amgylchiadau eithriadol, gallai fod yn allanol i'r Brifysgol.

15.3. Os oes unrhyw bryderon ynghylch y Swyddog Achosion, gofynnir i bartïon fynegi'r pryderon hynny'n ysgrifenedig i Swyddfa'r Pro Is-Ganghellor perthnasol a fydd yn ystyried unrhyw bryderon o'r fath.

15.4. Bydd y Swyddog Achosion yn cynnal gwerthusiad cychwynnol i wirio a yw'r gŵyn:

15.4.1. wedi'i chyflwyno dan y gweithdrefnau cywir;

15.4.2. ddim yn cyfeirio at ymddygiad neu ymarweddiad personol aelod o'r staff. Os ydyw bydd yn cael ei chyfeirio at y broses neu weithdrefn briodol, boed honno'n anffurfiol neu'n ffurfiol;

15.4.3. wedi'i chyflwyno cyn unrhyw ddyddiad terfyn;

15.4.4. yn y fformat gofynnol.

15.4.5. Yn ogystal, bydd y Swyddog Achosion yn asesu a oes angen gweithredu'n gyflym ar yr achos.

15.5. O ganlyniad i'r gwerthusiad cychwynnol, bydd y Swyddog Achosion yn penderfynu:

15.5.1. a fyddai cyfryngu neu gymodi yn addas; neu

15.5.2. a ddylid cyfeirio'r gŵyn yn ôl at y weithdrefn datrysiad cynnar; neu

15.5.3. a oes angen mynd â'r gŵyn ymlaen dan y prosesau ffurfiol; neu

15.5.4. a fernir bod diffyg tystiolaeth i gefnogi'r gŵyn, neu ei bod yn ddisylwedd, yn flinderus neu'n faleisus ac na ddylid mynd ymlaen â hi; neu

15.5.5. a ystyrir bod y gŵyn yn rhy hwyr.

15.6. Os bernir bod cwyn yn rhy hwyr, bydd y Brifysgol, ar gais, yn cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau, gan nodi'r rheswm pam na chafodd y gŵyn ei hystyried a chan hysbysu'r myfyriwr y gall fynd â'r gŵyn at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA) ar gyfer Addysg Uwch.

15.7. Os canfyddir bod cwyn wedi'i gwneud gyda bwriad disylwedd, blinderus neu faleisus, ni fydd y Brifysgol yn ystyried y gŵyn ymhellach. Bydd y Brifysgol, ar gais, yn cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau, gan nodi'r rheswm pam na chafodd y gŵyn ei hystyried a chan gynghori'r myfyriwr y gall fynd â'r gŵyn at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA) ar gyfer Addysg Uwch.

15.8. Er mwyn penderfynu a ddylid gwrthod cwyn yn unol â 15.7, bydd y Swyddog Achosion yn rhoi ystyriaeth i holl amgylchiadau'r achos a bydd yn ystyried cynnwys y gŵyn ac ymddygiad y myfyriwr mewn perthynas â'r gŵyn cyn dod i benderfyniad. Gallai cwynion sydd wedi'u gwneud gyda bwriad disylwedd, blinderus neu faleisus gynnwys y canlynol:

15.8.1. cwynion sy'n aflonyddu, yn ailadroddus neu'n cael eu dilyn mewn modd afresymol;

15.8.2. cwynion sy'n dilyn cwynion anhaeddiannol a/neu ganlyniadau afrealistig neu afresymol;

15.8.3. cwynion a luniwyd i achosi tarfu neu annifyrrwch;

15.9. Os bydd yr achos yn mynd yn ei flaen i ymchwiliad, bydd y Swyddog Achosion fel arfer yn anfon y gŵyn ymlaen at uwch swyddog(ion) perthnasol yn y brifysgol i gael gwybodaeth bellach. Bydd yr uwch swyddog perthnasol yn y brifysgol yn codi'r mater gydag unrhyw aelod(au) priodol o staff ac yn cyflwyno adroddiad cychwynnol i'r Swyddfa Academaidd o fewn 21 diwrnod. Lle bo'n briodol gall yr uwch swyddog yn y brifysgol hefyd wneud argymhellion ynghylch dulliau unioni posibl ar gyfer y gŵyn.

15.10. Ar ôl cael yr adroddiad(au) cychwynnol, gall y Swyddog Achosion ofyn am gyfarfod (fel arfer yn rhithwir) gyda'r achwynydd, aelodau o'r staff a/neu ofyn am dystiolaeth/eglurhad ychwanegol gan unrhyw rai o'r partïon dan sylw.

15.10.1. Bydd y cyfarfod(ydd) yn ceisio:

15.10.1.1. egluro datganiadau a wnaed yn y gŵyn ffurfiol;

15.10.1.2. cadarnhau manylion y canlyniad mae'r achwynydd yn dymuno'i gael;

15.10.1.3. rhannu prif bwyntiau'r adroddiad cychwynnol.

15.10.2. Os bydd angen, gwahoddir yr achwynydd i gyfathrebu trwy ddulliau eraill.

15.10.3. Caniateir cynrychiolaeth gyfreithiol mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.

15.11. Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, bydd y Swyddog Achosion yn llunio adroddiad terfynol ar yr ymchwiliad i'r gŵyn.

15.12. Bydd yr adroddiad hwn yn gwneud argymhelliad i'r Grŵp Adolygu Achosion Myfyrwyr ynghylch a oes angen mynd â'r achos i banel.

15.13. Os mai'r argymhelliad yw peidio â mynd i banel, dylai'r canlyniadau a argymhellir fod yn unol â'r canlyniadau a amlinellir yn adran 17.

15.14. Bydd y Grŵp Adolygu Achosion Myfyrwyr yn penderfynu a oes angen mynd â'r achos i banel

15.15. Os bernir nad oes angen mynd i banel, bydd y Grŵp Adolygu Achosion Myfyrwyr yn ystyried yr argymhellion gan y Swyddog Achosion ac yn rhoi llythyr canlyniad i'r myfyriwr.

15.16. Os bernir bod angen mynd i banel, trefnir Panel Ffurfiol.

## 16. Panel Cwynion (Panel Ffurfiol)

16.1. Bydd y Panel Ffurfiol yn cwrdd fel arfer o fewn 35 diwrnod ar ôl i'r gŵyn ddod i law. Os bydd yn cymryd mwy o amser na hyn i wirio'r ffeithiau y mae'r gŵyn yn cyfeirio atynt, neu os bydd angen golygu'n helaeth ddogfennau sydd i'w dosbarthu er mwyn bodloni safonau diogelu data, gellir ymestyn y cyfnod hwn.

16.2. Caiff dyddiad cyfarfod y panel, ei aelodaeth, a fformat y Panel Ffurfiol ei gyfleu i'r myfyriwr cyn yr achos, fel arfer heb fod yn llai na deg diwrnod cyn y cyfarfod.

16.3. Caiff unrhyw ddogfennau ar gyfer cyfarfod y panel eu dosbarthu i aelodau'r Panel, y myfyriwr, a'r Swyddog Achosion, fel arfer heb fod yn llai na phum diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod.

16.4. Yn dilyn y cyfarfod, rhoddir gwybod am y canlyniad yn ffurfiol i'r myfyriwr yn ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod ar ôl cyfarfod y Panel.

16.5. Bydd gan y Cadeirydd y disgresiwn i ddatgan bod unrhyw fater a gyflwynir gan y myfyriwr, neu gan unrhyw dyst neu berson gyda'r myfyriwr, yn annerbyniol os tybia nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â chynnwys y gŵyn a gyflwynwyd yn flaenorol yn ysgrifenedig o fewn y terfyn amser a nodwyd.

16.6. Os bydd angen cyngor arbenigwr ar Banel Ffurfiol i ddelio â chwestiwn ffeithiol neu anhawster arbennig, gall arbenigwr o'r fath ddarparu adroddiad ysgrifenedig cyn y panel a, lle bo'n briodol, gellir ei wahodd i'r panel i ddarparu tystiolaeth a chyngor arbenigol i'r Panel.

## 17. Canlyniadau

17.1. Bydd gan y Panel yr awdurdod i wneud un o'r penderfyniadau canlynol:

17.1.1. gwrthod y gŵyn;

17.1.2. cadarnhau'r gŵyn yn rhannol, a gorchymyn y dylid cymryd camau priodol i unioni'r sefyllfa;

17.1.3. cadarnhau'r gŵyn, a gorchymyn y dylid cymryd camau priodol i unioni'r sefyllfa.

17.2. Gall y dulliau unioni a gynigir gynnwys:

17.2.1. Ymddiheuriad;

17.2.2. Dull unioni y cytunwyd arno ar gyfer yr amgylchedd dysgu neu'r cwrs;

17.2.3. Datrys y pryder, e.e. mynediad i wasanaeth; gwneud newid i amserlen neu ystafell;

17.2.4. Cyfryngu a chymodi;

17.2.5. Dull unioni ariannol;

17.2.6. Adfer difrod;

17.2.7. Cyfiawnder adferol.

17.3. Gall y Panel Cwynion wneud argymhellion i'w hystyried trwy strwythur pwyllgorau'r Brifysgol fel y bo'n briodol ar unrhyw fater sy'n codi o ystyried cwynion.

17.4. Rhoddir gwybod am ganlyniad y Gŵyn i'r myfyriwr trwy gyfrwng Llythyr Canlyniad Cŵyn, fel arfer o fewn 14 diwrnod ar ôl cyfarfod y Panel Cwynion.

## 18. Adolygu Canlyniad Cwynion (Cam 2)

18.1. Os yw'r myfyriwr yn anfodlon â chanlyniad y cam ffurfiol, mae'n bosibl y gall wneud cais am adolygiad.

18.2. Gellir gwneud cais am adolygiad ar sail un neu fwy o'r seiliau canlynol yn unig:

18.2.1. anghysondebau wrth weithredu'r weithdrefn gwynion, a natur y rheini yn ddigon i achosi amheuaeth resymol a fyddid wedi dod i'r un penderfyniad pe na baent wedi digwydd;

18.2.2. bodolaeth tystiolaeth berthnasol newydd na allai'r myfyriwr, oherwydd rhesymau argyhoeddiadol, ei darparu yn gynharach yn y broses;

18.2.3. bod tystiolaeth ar gael i ddangos bod y canlyniad y daethpwyd iddo ar gam cynharach yn afresymol. Yn y cyd-destun hwn, cymerir bod afresymol yn golygu nad oedd y canlyniad yn gasgliad posibl y gallai gwrandawiad neu broses debyg o ystyriaeth fod wedi dod iddo.

18.3. Rhaid i gais am adolygiad o ganlyniad y gŵyn ddod i law ar y ffurflen ofynnol ddim mwy na 21 diwrnod ar ôl yr hysbysiad am ganlyniad y gŵyn.

18.4. Ni fernir bod hysbysiad syml o ddymuniad y myfyriwr i wneud cais am adolygiad o fewn y terfyn amser uchod yn gyfystyr â chais ffurfiol am adolygiad ac ni chaiff ei dderbyn.

18.5. Bernir bod cais am adolygiad a ddaw i law ar ôl y terfyn amser uchod yn rhy hwyr ac ni chaiff ei ystyried oni bai bod tystiolaeth annibynnol i ddangos rhesymau argyhoeddiadol pam na chafodd y cais am adolygiad ei gyflwyno'n amserol.

18.6. Os bernir bod cais am adolygiad yn rhy hwyr, bydd y Brifysgol, ar gais, yn cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau, gan nodi'r rheswm pam na chafodd y cais am adolygiad ei ystyried a chan hysbysu'r myfyriwr y gall fynd â'r gŵyn at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA) ar gyfer Addysg Uwch.

18.7. Os na dderbynnir cais am adolygiad o fewn 14 diwrnod, bydd y Brifysgol yn tybio nad yw'r myfyriwr yn dymuno gwneud cais am adolygiad. Os bydd y myfyriwr wedyn yn gofyn am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau, bydd y Brifysgol yn cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau, gan nodi nad oedd y myfyriwr wedi dilyn y gweithdrefnau ar gyfer gwneud cais am adolygiad yn amserol a chan hysbysu'r myfyriwr y gall fynd â'r gŵyn at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA) ar gyfer Addysg Uwch.

18.8. Bydd uwch swyddog addas yn adolygu'r cais i ganfod a yw'r cais yn seiliedig ar resymau a ganiateir ac a oes achos clir wedi'i wneud. Gall ef/hi wrthod unrhyw gais nad yw'n seiliedig ar y rhesymau a nodwyd uchod neu lle mae'n amlwg nad

oes achos clir dros adolygu canlyniad y gŵyn wedi'i wneud. Hysbysir y myfyriwr trwy Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau fod y cais am adolygiad wedi'i wrthod a bod canlyniad gwreiddiol y gŵyn yn sefyll. Hysbysir y myfyriwr y gall fynd â'r gŵyn at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA) ar gyfer Addysg Uwch.

18.9. Os penderfynir fod y cais yn seiliedig ar resymau a ganiateir a bod achos clir dros adolygu canlyniad y gŵyn wedi'i wneud, bydd yr uwch swyddog yn ystyried y cais.

18.10. Wrth ddod i benderfyniad, bydd yr uwch swyddog yn seilio'i benderfyniad ar dystiolaeth cyflwyniad y myfyriwr ynghyd ag unrhyw dystiolaeth bellach y mae'n ei hystyried yn berthnasol. Fel arfer ni fydd y cam adolygu hwn yn ystyried y materion o'r newydd nac yn cynnwys ymchwiliad pellach. Ni chynhelir cyfarfod yn rhan o'r broses adolygu. Gellir cynnal Panel Ffurfiol dim ond os yw'r mater wedi'i gyfeirio'n ôl i'r cam ffurfiol i'w ailystyried.

18.11. Bydd gan yr uwch swyddog yr awdurdod i wneud un o'r penderfyniadau canlynol:

18.11.1. cadarnhau canlyniad gwreiddiol y gŵyn;

18.11.2. gwrthdroi penderfyniad y gŵyn a chadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol;

18.11.3. cyfeirio'r gŵyn yn ôl at Banel Ffurfiol;

18.11.4. gorchymyn y dylid cymryd camau priodol i unioni'r sefyllfa.

18.12. Bydd penderfyniad yr uwch swyddog yn derfynol, ac ystyrir bod y mater felly wedi'i gau. Ni fydd trafodaeth bellach ynglŷn â phenderfyniad yr uwch swyddog gyda'r myfyriwr nac unrhyw berson arall. Ni fydd hawl gwneud cais am adolygiad pellach o ganlyniad y gŵyn.

18.13. Mynegir penderfyniad yr uwch swyddog i'r myfyriwr, fel arfer o fewn 28 diwrnod ar ôl i'r cais am adolygiad ddod i law, trwy lythyr canlyniad cwyn diwygiedig. Os gwrthodir yr adolygiad o'r canlyniad, hysbysir y myfyriwr drwy Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau y gall fynd â'r gŵyn at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA) ar gyfer Addysg Uwch.

18.14. Ar ôl derbyn y Llythyr Canlyniad Cwyn diwygiedig, os yw'r myfyriwr yn anfodlon â'r canlyniad, gall ofyn am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau a fydd yn hysbysu'r myfyriwr y gall fynd â'r gŵyn at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA) ar gyfer Addysg Uwch.

## 19. Cwblhau Gweithdrefnau ac Adolygiad Annibynnol

19.1. Rhaid gwneud cwynion i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA) ar gyfer Addysg Uwch o fewn 12 mis i'r dyddiad y daw'r Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau i rym. Fel arfer, y dyddiad dod i rym yn achos Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yw'r dyddiad y caiff ei gyhoeddi. Os bernir bod cais am adolygiad yn rhy hwyr neu os gofynnir am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau fwy na 30 diwrnod ar ôl yr hysbysiad am y penderfyniad terfynol, fel arfer y dyddiad dod i rym yn achos unrhyw Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau fydd y dyddiad y gwnaed y penderfyniad terfynol. Bydd manylion llawn y weithdrefn ar gael ar wefan yr SDA: www.oiahe.org.uk.

## 20. Paramedrau cyfrinachedd

20.1. Bydd y Brifysgol yn ystyried ei rhwymedigaethau dan reoliadau diogelu data perthnasol a Deddf Cydraddoldeb 2010 yng nghyswllt unrhyw wybodaeth a rennir am y gŵyn.

20.2. Atgoffir pob parti am y cyfrinachedd sy'n gysylltiedig â'r gweithdrefnau a nodir uchod. Datgelir gwybodaeth yn gysylltiedig â'r achos i gyn lleied o bobl â phosibl.

## 21. Llinellau amser safonol

21.1. Ar hyd y polisi sonnir am linellau amser safonol ar gyfer camau allweddol y broses. Lle bynnag y bo modd bydd y Brifysgol yn ceisio glynu wrth y terfynau amser a nodir yn y gweithdrefnau hyn, ond mewn achosion lle mae amgylchiadau arbennig sy'n gofyn am amrywio'r terfynau amser a bennwyd, hysbysir y myfyriwr ac unrhyw bartïon perthnasol eraill am y rhesymau am hyn. Gall fod angen gohirio prosesau.

| Cam allweddol | Llinell amser safonol |
|---|---|
| Gwahoddiad i gyfarfodydd gyda Swyddogion Achosion | Rhoddir rhybudd heb fod yn llai na 2 ddiwrnod cyn y cyfarfod |
| Cwblhau'r broses ymchwilio | O fewn 21 diwrnod |
| Gwybodaeth am fformat y panel ffurfiol, ei aelodaeth, dyddiad a lleoliad | Rhoddir rhybudd heb fod yn llai na 10 diwrnod cyn y cyfarfod |
| Dosbarthu unrhyw ddogfennau'n gysylltiedig â chyfarfod y panel | Rhoddir rhybudd heb fod yn llai na 5 diwrnod cyn y cyfarfod |
| Hysbysiad ysgrifenedig o ganlyniad y gŵyn yn dilyn cyfarfod Panel Ffurfiol | O fewn 14 diwrnod |
| Cwblhau'r broses ffurfiol | 40 diwrnod |
| Cais i adolygu'r canlyniad | O fewn 14 diwrnod wedi dyddiad yr hysbysiad am y canlyniad |
| Cwblhau proses adolygu'r canlyniad | O fewn 28 diwrnod ar ôl derbyn y gŵyn |

## 22. Monitro

22.1. Cyflwynir adroddiad trosolwg ar achosion myfyrwyr yn flynyddol i'r Senedd a Phwyllgor perthnasol y Cyngor gan y Pro Is-Ganghellor â chyfrifoldeb am Brofiad Academaidd. Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn monitro effeithiolrwydd y polisi.

## 23. Goblygiadau Adnoddau

| Goblygiad | Manylion |
|---|---|
| Cyllid | *Hyfforddiant i holl aelodau staff y Brifysgol sy'n rhan o weithdrefnau cwynion (e.e. Swyddogion Achosion, Cadeiryddion ac aelodau Paneli Apeliadau, staff sy'n darparu cefnogaeth i fyfyrwyr, Uwch Swyddogion, y rheini sy'n cymryd cofnodion)* |

| | |
|---|---|
| Staff | *Ni ragwelir adnoddau ychwanegol.* |
| Asedau | *Ni ddynodwyd unrhyw gostau asedau.* |
| Partneriaid | *Rhoddir ystyriaeth i gymhwyso'r polisi hwn ar draws y grŵp sector deuol.* |
| Amserlen | *Ar ôl derbyn cymeradwyaeth, gweithredir y polisi ar unwaith. Bydd y polisi'n cael ei fonitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol.* |
| Arweinyddiaeth | *PIG â chyfrifoldeb am Brofiad Academaidd* |

## 24. Asesu Effaith

| Goblygiad | Ystyriwyd yr Effaith (Do/Naddo) | Yr Effaith a Nodwyd |
|---|---|---|
| Cyfreithiol | Do | *Mae'r polisi'n cydymffurfio â'r canlynol:*<br>- *Cyfraith contractau a defnyddwyr*<br>- *Deddf Hawliau Dynol 1998*<br>- *Deddf Cydraddoldeb 2010*<br>- *Cyfiawnder Naturiol (tegwch)*<br>- *Deddf Diogelu Data 2018 (a GDPR)* |
| Cyfraniad at y Cynllun Strategol | Do | *Mae'r polisi'n cydymffurfio â'r gwerthoedd a fynegwyd yn y Cynllun Strategol.* |
| Dadansoddi Risg | Do | *Mae cydymffurfio â'r Polisi yn lliniaru cwynion i'r SDA, a chwynion i'r ICO.* |
| Cydraddoldeb | Do | *Bydd y polisi'n sicrhau y cedwir at ddarpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb.* |
| Yr Iaith Gymraeg | Do | *Mae'r polisi'n cyd-fynd â'r egwyddorion a fynegir yn Neddf yr Iaith Gymraeg.* |
| Amgylcheddol a Chynaliadwyedd | Do | *Dim wedi eu dynodi.* |
| Cyfathrebu / Cyfryngau / Marchnata | Do | *Bydd y polisi ar gael i'r staff a'r myfyrwyr drwy MyDay* |

## 25. Awdur y polisi:

25.1. Dr Mirjam Plantinga, Pro Is-Ganghellor

## 26. Rheoli fersiynau dogfennau

| Rhif y Fersiwn | Rheswm dros y newid | Awdur | Dyddiad Newid |
|---|---|---|---|
| 0.1 | Polisi Drafft | KE | 01.10.2019 |
| 0.2 | Polisi terfynol a gymeradwywyd | KE | 16.10.2019 |
| 1.1 | Diweddariad Blynyddol | KE | 25.08.2020 |
| 1.2 | Diweddariad Blynyddol | CP | 15.09.2021 |
| 1.3 | Diweddariad Blynyddol | MO | 07.09.2022 |

**Statws presennol y Polisi:** wedi'i gymeradwyo

**Mae'r Polisi'n berthnasol i'r canlynol:** AU

**Dyddiad ei gadarnhau gan y Pwyllgor Safonau Academaidd:** 16/10/2019

**Dyddiad y daw i rym:** 01/09/2019

**Dyddiad adolygu'r polisi:** 01/09/2022

**I'w gyhoeddi:** ar wefan y Drindod Dewi Sant